# CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

-------------------------------------------

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 16eg Mehefin 2026

**1.** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod

**2. <u>Ymddiheuriadau</u>** - Thomas Williams, Eirian Allport, Gwenno Griffiths, Guto Huws, Sïon Tomos, Siân Evans, Gethin Roberts

**<u>Presennol</u> -** Aaron Hughes (cadeirydd), Eifion Jones (is-gadeirydd), Ken Williams, Eleri Owen, Elias Jones, Rhys Jones, Eilir Evans, Cyng., Dafydd Davies, Nia Jones (clerc)

**3. <u>Datgan buddiant</u>** – nid oedd gan unrhyw aelod fuddiant.

**5. <u>Cofnodion cyfarfod 19eg Mai 2026</u>** – Cynigwyd gan Elias Jones ac eiliwyd gan Eifion Jones fod y cofnodion yn gywir.

**5. <u>Materion yn Codi</u>**

1. Ynys Wyllt - darllen ymateb Mia i'r e-bost a yrrwyd gyda lluniau o ffiniau'r tir. Angen drafftio datganiad o wirionedd erbyn y cyfarfod nesaf. Aaron Hughes am gysylltu â Marian Elias i holi os yw hi yn cofio unrhyw beth am hyn. Angen holi yn iawn wrthynt lle mae'r dogfennau roedd Aaron wedi mynd yno peth amser yn nôl. Holi ella bod pethau Ynys Wyllt wedi mynd i ganlyn dogfennau mynediad yr eglwys. Cynnig y dylid holi Cyfoeth Naturiol Cymru am unrhyw wybodaeth. Mae modd gwneud cais heb yrru'r pethau. Gofyn i Peckover am lythyr.

2. Mynediad i'r fynwent - Nid oedd dim pellach i'w adrodd ar y mater felly angen dilyn fyny ar hyn gyda'r cyfreithwyr.

3. Pont Pantafon – Y bont yn eithaf drwg ac angen sylw. Cyng. Davies wedi siarad hefo swyddog Cyngor Gwynedd ac yn disgwyl am ymateb.

4. Arwydd cyflymder - Cyng. Davies wedi cysylltu â'r cwmni gan fod bracet ar goll. Am ei archebu ac wedyn caiff yr arwydd ei osod.

5. Biniau – hyn mewn llaw adroddodd Cyng. Davies. Dim byd newydd i adrodd.

6. Cwynion am chwyn a chanclwm o gwmpas y pentrefi - Eifion Jones wedi siarad gyda Morris ac wedi cael gwybod nad oes pwrpas dechrau gweithio ar y canclwm hyd nes mis Awst. Hefyd wedi cael pris o £300 y dydd am waredu chwyn o gwmpas yr ardal. Eifion yn ei gyfarfod dydd Sadwrn i ddangos o gwmpas lle sydd eisiau gwaith.

7. Ffoes Simbil - dal dim wedi ei wneud. Ryan James Williams (Cyngor Gwynedd) heb fod o gwmpas eto.

8. Golau Nadolig – hyn mewn llaw.

9. Torri Gwair - toriad wedi cael eu gwneud.

10. Goryrru yn Nhai Lôn – adrodd bod Cyngor Gwynedd am baentio arwyddion ARAF ar y ffordd a newid yr arwyddion cyflymder i 30mya

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ……………………………………………………………….

11. Goryrru yng Nghlynnog Fawr – hyn mewn llaw.
12. System CCTV - wedi trafod cael rhoi system ar y neuadd. Cynnig ac eilio i basio hyn ymlaen i bwyllgor neuadd a Chyngor Cymuned i dalu amdano. Siarad hefo Eirian Allport am hyn.
13. Gwyneb bwrdd arwydd Pontllyfni – holi Designer Signs
14. Bwrdd picnic - cae chwarae Pontllyfni a Lan môr - wedi ceisio am rain ar y grant
15. National Grid – darllen ymateb Dylan Herbert Grid Cenedlaethol.

**6. Ceisiadau cynllunio** - dim

**7. Materion ariannol**

a) Sefyllfa ariannol ar 28ain o Mai 2026

| | |
|---|---|
| Cyfrif cadw (elusen) | £159.70 |
| Cyfrif cyfredol | £26,364.44 |

b) Anfonebau i'w talu – Gwefan - £17.99
- Thomas Williams - Blodau £17.99

Cytunwyd i'r clerc dalu'r anfonebau uchod.

**8. Bioamrywiaeth -** Polisi - pawb wedi derbyn copi o'r polisi hwn i edrych drosto. Cynigwyd ac eiliwyd i'w basio.

**9. Gohebiaeth -** pawb wedi cael copïau o'r ohebiaeth ac nid oedd dim yn codi. Llythyr gan Ysgol Brynaerau yn diolch am yr arian a gyfrannwyd iddynt. Enwau i bwyllgor ardal - cytunodd Aaron Hughes ac Eifion Jones i roi eu henwau ymlaen i fynychu'r cyfarfodydd hyn fel ag y maent yn medru.

**10. Materion aelodau** - Eifion Jones - o Feuno i fyny am Gil Llidiart mae coed wedi tyfu, ofn na fydd cerbydau argyfwng yn medru mynd fyny. Lan y môr Clynnog - cerrig wedi gwisgo ar y step i lawr o'r llwybr Cyng. Davies am gysylltu â ANHE am hyn. Elias Jones - isio diolch i Sïon am lanhau o gwmpas y neuadd. Eleri Owen - llwybr rhwng hen siop Capel Uchaf a'r tai - darn o giât y fynwent isio ei glirio. Eirian Allport - llwybr Bachwen angen ei dorri - gofyn i Arwel. Aaron Hughes - eisteddfod yr Urdd 2028 yng Nghaernarfon - adrodd mai targed Cymuned Clynnog ydi £2000.

**11. Materion eraill –** nid oedd dim yn codi.

**12. Cyfarfod nesaf -** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 28ain Gorffennaf 2026 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Clynnog Fawr.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ………………………………………………………………